



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 7FED Medi 2016 AM 2.00 p.m.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), K. James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D.V. Poole (Tai), T. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg) ac R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol ac 151), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Cymunedau Corfforaethol) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), T. Broadhurst (Pennaeth Adran - Ystadau) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb

2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre ddiddordeb yn yr eitem sy'n ymwneud â Thir yn Heol Cefn Uchaf, Deri. Mae manylion ar gofnodion gyda'r eitem berthnasol.

3. CABINET – 27AIN GORFFENNAF 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Gorffennaf 2016 (rhifau cofnod. 1- 11) fel cofnod cywir.

4. PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHAU'R DYFODOL A GYNHALIWDYD AR 9FED MEHEFIN 2016 .

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion Panel Ymgynghorol Cenedlaethau'r Dyfodol Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 9fed Mehefin 2016 (rhifau cofnod 1 - 9) i nodi.

5. TIR YN HEOL CEFN UCHAF, DERI.

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre ddiddordeb (oherwydd ei gysylltiad personol gyda'r prynwr posibl y tir) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i waredu tir yn Heol Cefn Uchaf, Deri.

Nododd yr aelodau fod y tir ym meddiant Cyngor Dosbarth Cwm Rhymini gynt yn Ionawr 1980. Cafodd maes chwarae ei sefydlu ar y tir o dan Gynllun Ardal Gwella Cyffredinol, a ariannwyd gan y Swyddfa Gymreig. Fodd bynnag, symudwyd yr offer chwarae yn ddiweddarach, ond mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal yr ardal o dan y contract cynnal a chadw tiroedd fel ardal o dir agored anffurfiol.

Ar ôl ystyried i werthu'r tir fel llain adeiladu preswyl, mae Cyngor Cymuned Cwm Darran wedi codi gwrthwynebiadau yn erbyn y cynnig hwn ar sail "problemau hanesyddol gyda mynediad, ar gyfer cerbydau a deunydd, a materion sy'n ymwneud â dŵr a nant ffrwd/gyfagos." Yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried y cynnig.

Holodd un Aelod am y gwrthwynebiad a godwyd a gofynnodd am wybodaeth bellach ar y mynediad i'r tir. Amlygodd y Swyddogion bod yna lethr serth i gael mynediad at y tir, fodd bynnag, bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei wneud gyda'r Adran Priffyrdd, cyn y gwerthiant.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD derbyn am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion, mae'r tir yn cael ei werthu ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl.

ARGYMHELLION I'R CYNGOR

6. AWDURDODI SWYDDOGION - CYNLLUNIAU GRANT CYMUNEDOL/PARTNERIAETH

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i awdurdodi Swyddogion mewn perthynas â gweithredu'r cynlluniau grant cymunedol/partneriaeth o fewn yr Isadran Diogelu'r Cyhoedd a chymeradwyaeth newid dilynol i Gyfansoddiad y Cyngor cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar gyfer Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro'r Cyngor Dros Dro ac i gynnwys y newidiadau.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn newidiadau sefydliadol, lle mae Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd bellach yn gyfrifol am y swyddogaeth Polisi Corfforaethol gan gynnwys gweinyddu Cronfa Cymorth Technegol, sy'n cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Adfywio. Sefydlwyd y gronfa i helpu sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn y fwrdeistref i dalu costau ffioedd proffesiynol cyn cyflwyno cais, technegol neu gyfreithiol, ar gyfer prosiectau cyfalaf. Mae'r Gronfa Grantiau Bach Gwyrddach Caerffili yn darparu hyd at £10,000 mewn arian cyfatebol ar gyfer prosiectau partneriaeth er mwyn cyflawni gwelliant a manteision amgylcheddol gwirioneddol i'r gymuned, mae ceisiadau yn cael eu hystyried gan Bartneriaeth Caerffili Gwyrddach.

Nododd yr aelodau fod, o ganlyniad i newidiadau trefniadol, bod y swyddogaeth Polisi Corfforaethol yn awr yn eistedd gyda Phennaeth Diogelu'r Cyhoedd ac felly gofynnir bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac ychwanegu'r ddirprwyaeth ar gyfer cymeradwyo neu wrthod ceisiadau am gyllid o dan Gronfa Cymorth Technegol a Chronfa Grantiau Bach Gwyrddach Caerffili i'r swyddogaeth Polisi Corfforaethol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

(I) awdurdodi unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau o dan y cynlluniau grant a nodir ym mharagraff 4.2 yr adroddiad;

(ii) yn cael ei argymhell i'r Cyngor bod y newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor fel y nodir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo a bod Swyddog Monitro'r Cyngor yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud y diwygiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.18pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2016.

CADEIRYDD